national dance company wales | cwmni dawns cenedlaethol cymru

# Pecyn recriwtio

## Cyfarwyddwr Gweithredol

## (Prif Weithredwr ar y Cyd)



# Dawns a wnaed yng Nghymru, yn cael ei rhannu â'r byd



Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru'n croesawu lleisiau nodweddiadol artistiaid o bob cwr o'r byd.

◆

Rydym yn comisiynu cydweithrediadau artistig mentrus, gyda dawns wrth wraidd y gwaith.

◆

Rydym yn rhannu dawns sy'n llawn uchelgais a dychymyg mewn theatrau, mannau cyhoeddus, gwyliau a lleoliadau trochol, yn creu profiadau perfformio bythgofiadwy.

◆

Rydym yn ysbrydoli pawb i symud drwy feithrin talent a mewnwelediad, ac annog a datblygu syniadau newydd.

# Ein Gweledigaeth

**Byd a gyfoethogir gan ddawns**

# Ein Cenhadaeth

**Rydym yn defnyddio dawns i fynegi syniadau y tu hwnt i eiriau, yn archwilio'r hyn mae'n ei olygu i fyw yng Nghymru a'r byd heddiw. Rydym yn gôr o leisiau, mewn sawl lle, yn gweithio gyda'n gilydd i gysylltu a thrawsnewid.**

Mae'r pecyn hwn ar gael yma yn Saesneg.

**Anfonwch e-bost at recruitment@ndcwales.co.uk i ofyn am unrhyw fformat arall.**

## Neges gan y Cadeirydd

Dyma adeg hynod gyffrous i ymuno ag un o gwmnïau dawns cyfoes mwyaf blaenllaw y DU, wrth i ni recriwtio Cyfarwyddwr Gweithredol parhaol a Chyd Brif Weithredwr i helpu i arwain Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru) i mewn i'r bennod nesaf.

Yn dilyn cyfnod o drawsnewid oedd wir ei angen, mae'r cwmni nawr mewn sefyllfa gryfach, mwy cynaliadwy. Gyda phenodiad diweddar Bakani Pick-Up fel Cyfarwyddwr Artistig (a Chyd Brif Weithredwr), rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr Gweithredol rhagorol i weithio ochr yn ochr ag ef er mwyn llywio dyfodol CDCCymru, cwmni sydd â'i wreiddiau yng Nghymru ond sydd ag uchelgais ryngwladol.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n cynnig profiad fel arweinydd cryf, yn ogystal â'r egni a'r dychymyg i ysgogi arloesedd a chydnerthedd. Byddwch yn hyderus ar draws y meysydd craidd, gan gynnwys arweinyddiaeth busnes, llywodraethu, cynllunio strategol, cyllid, marchnata a chyfathrebu, codi arian, rheoli pobl ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddwch hefyd yn dod â chred yng ngrym dawns i drawsnewid bywydau, ac ymrwymiad dwfn i degwch, mynediad a gwerth cyhoeddus.

Fel Cyd Brif Weithredwr, byddwch yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r Cyfarwyddwr Artistig er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth artistig feiddgar; gweledigaeth sy'n hyrwyddo coreograffi a chreadigrwydd rhagorol, sy'n cefnogi artistiaid lleol a byd-eang, ac sy'n cysylltu â chynulleidfaoedd mewn ffyrdd ystyrlon. Byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth gynhyrchu ein gwaith a mynd â'r gwaith hwnnw ar daith, gan gydweithredu â lleoliadau a phartneriaid er mwyn ehangu ein dylanwad cenedlaethol a rhyngwladol, a'n helpu i gyrraedd rhagor o gynulleidfaoedd ym mhob rhan o Gymru.

Byddwch hefyd yn ein helpu i ddatblygu ffynonellau arian newydd a chynaliadwy, gan sicrhau ein bod yn cefnogi artistiaid ar eu taith greadigol ac yn buddsoddi mewn gwaith sy'n ystyrlon yma yng Nghymru a ledled y byd.

Byddwch yn cydweithredu'n rheolaidd gyda'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, ac rwyf i'n bersonol yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'n Cyfarwyddwr Gweithredol newydd er mwyn sicrhau llywodraethu cryf, uchelgais feiddgar a chyflawniad ardderchog ar draws pob rhan o'r sefydliad.

Rydym yn falch o'r hyn mae CDCCymru yn ei gynrychioli, sef cwmni cenedlaethol sy'n cael ei arwain gan artistiaid, sy'n cysylltu gyda chymunedau ac sy'n ymrwymo i gynrychioli holl ystod Cymru gyfoes. Byddwch yn eiriolwr gweledol a hyderus dros y cwmni a thros ddawns yn ehangach, gan ein helpu i ddatblygu cysylltiadau cryfach ar draws y sector diwylliannol a'r gymdeithas yn ehangach.
Rydym yn gweld gwerth mewn gwahaniaeth ac amrywiaeth, ac rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan rai sy'n cael eu tangynrychioli yn ein sector. Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol, croesawgar lle gall pawb ffynnu.

Fel rhan o'r broses recriwtio hon, rydym yn cynnal dau ddigwyddiad Tŷ Agored, un ar-lein a'r llall yn ein cartref ym Mae Caerdydd, lle gallwch gwrdd ag aelodau o'r Bwrdd, y staff a'r cwmni ehangach. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwych i gael synnwyr o bwy ydym ni a sut rydym ni'n gweithio. Mae'r manylion yn y pecyn, ac rwy'n gobeithio cael eich cyfarfod yn y naill neu'r llall.Cofiwch gysylltu os ydych yn dymuno cael sgwrs gyfrinachol ynghylch y rôl.

Alison Thorne



**Cliciwch yma i anfon e-bost at Alison ar: alison@atconnect.org.uk**

## Neges gan y Cyfarwyddwr Artistig (a Chyd Brif Weithredwr)

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru) ar drothwy cyfnod pwysig o adnewyddu, ac mae'n adeg hynod gyffrous i ymuno â ni. Dros y 18 mis diwethaf, mae'r cwmni wedi bod drwy gyfnod sylweddol o drawsnewid, gan osod y sylfeini ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy a chydnerth. Nawr, gydag eglurder ac uchelgais o'r newydd, rydym yn barod i adeiladu, ac i ysgrifennu'r bennod nesaf yn ein stori, gan fod yn uchelgeisiol, yn ddylanwadol, ac yn llawn egni a phosibiliadau.

I'n helpu i lywio'r dyfodol hwn, rwy'n chwilio am bartner gwirioneddol ragorol.

Fel Cyfarwyddwr Artistig, rwy'n credu bod yn rhaid i'n cwmni gael ei adeiladu ar sylfaen gadarn a chynaliadwy sy'n caniatáu risg creadigol, arloesedd a rhagoriaeth er mwyn ffynnu o ddifrif. Wrth galon hyn mae gwaith artistig beiddgar, perthnasol ac ystyrlon wedi'i gefnogi gan ymrwymiad dwfn i ddatblygu artistiaid ac unigolion creadigol ar bob cam o'u taith.

Rydym eisiau i ddawnsio gwych fod ar gael i bawb, mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Ac rydym eisiau chwarae rhan allweddol wrth wrando ar beth mae'r sector ei angen, ac yna helpu i lywio a chyflawni'r newid sy'n angenrheidiol ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Mae hynny'n golygu creu llwybrau a chyfleoedd newydd, hyrwyddo artistiaid, a hyrwyddo Cymru fel pwerdy dawns ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol.

Yn fwy na hynny, rydym yn gweld CDCCymru fel y grym sy'n gyrru esblygiad parhaus dawns gyfoes, ac sy'n helpu i ddiffinio, datblygu a hyrwyddo'r gelfyddyd wrth iddi dyfu a newid yn yr 21ain ganrif.
Mae mwy i'r bartneriaeth hon na rhedeg sefydliad yn unig. Mae hefyd yn cynnwys cyd-awduro yr hyn y gall cwmni dawns cenedlaethol fod, a'r hyn ddylai fod, ar yr adeg hon a thu hwnt. Gyda'n gilydd, fel Cyd Brif Weithredwyr, byddwn yn arwain y cwmni gyda gweledigaeth gytûn, cyfrifoldeb cyfartal a chyd-ymddiriedaeth. Byddwn yn cyfuno uniondeb artistig ag eglurder gweithredol a strategol.

Byddwn yn cyflwyno CDCCymru fel sefydliad sy'n arwain y ffordd o ran rhagoriaeth artistig, gyda gwreiddiau dwfn yn lleol a meddylfryd rhyngwladol, bywiog. Byddwn yn dathlu ac yn cydweithredu gydag artistiaid o Gymru a hefyd yn croesawu lleisiau beiddgar o bob cwr o'r byd dawns i mewn i'n cynefin creadigol, ac i Gymru ei hun. Byddwn yn ceisio cyrraedd mwy o gymunedau o bob math ar hyd a lled y wlad, gan feithrin cysylltiadau ystyrlon sy'n adlewyrchu ein cred bod dawns yn rhywbeth i bawb.

Rwy'n chwilio am rywun sy'n rhannu'r weledigaeth hon. Rhywun sy'n gwerthfawrogi ein treftadaeth fel cwmni repertoire ond sy'n cael ei symbylu gan arloesedd a'r hyn sy'n dod nesaf. Rhywun sy'n deall sut i gydbwyso uchelgais artistig gyda chadernid ariannol. Rhywun sy'n gallu arwain gydag eglurder, gofal a dewrder.

Bydd y partner delfrydol yn cynnig deallusrwydd strategol, gweithredol a chreadigol, ond hefyd cred wirioneddol yng ngrym trawsnewidiol dawns i newid bywydau, cysylltu pobl â'i gilydd, a darparu ffyrdd newydd o weld ac o fod.

Ar ei orau, mae CDCCymru yn amgylchedd democrataidd, sy'n cael ei arwain gan werthoedd, yn cael ei yrru gan ddychymyg, ac sydd wedi'i wreiddio mewn cydweithrediad. Rwyf am arwain ochr yn ochr â rhywun sy'n adlewyrchu hyn. Rhywun sy'n agored, sydd â'i ffocws ar y dyfodol, sy'n ymarferol ac yn feiddgar. Rhywun sy'n credu, fel rwyf i'n ei wneud, fod yn rhaid i'r gwaith a wnawn a'n ffordd o weithio adlewyrchu ein cred greiddiol: fod lle i bawb ym myd dawns. Os yw hyn yn golygu rhywbeth i chi, gobeithio y byddwch yn ystyried ymgeisio.
Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at eich cwrdd.



Bakani Pick-Up

# Cefndir Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru) yn gwmni dawns sy'n creu a chyflwyno gwaith dawns uchelgeisiol ac ymgysylltiol ledled y DU ac yn rhyngwladol. Fel cwmni sefydlog, rydym yn creu gwaith gan amrywiaeth o goreograffwyr i adlewyrchu gwahanol safbwyntiau.

Mae ein rhaglen artistig wedi'i hysgogi gan ymrwymiad i greu gwaith newydd, darganfod a datblygu artistiaid newydd ac ysbrydoli cynulleidfaoedd a chymunedau drwy brofiadau dawns cyfoethog o ansawdd uchel.





Dathlodd CDCCymru ei 40ain flwyddyn yn 2023, a bwriad ein cynllun strategol ar gyfer 2023-2027 yw creu cwmni dawns sy'n gweithio ar draws gwahanol raddfeydd o berfformiadau ac sy'n cynnig amrywiaeth o ddulliau er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd mwy amrywiol.
[(Darllenwch ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yma)]

Mae ein gwaith ymgysylltu cymdeithasol yn ymwneud â phobl yn y lleoedd maent yn byw, gan gyflwyno gwaith dylanwadol. Rydym yn ehangu mynediad ac yn gwella llesiant ar gyfer pob oed drwy hyrwyddo gweithgarwch corfforol ac ymgysylltiad creadigol.

Mae ein cysylltiad ag artistiaid llawrydd ledled Cymru yn ein galluogi i ddatblygu perthnasoedd cymunedol parhaus ar lefel leol, a chyd-greu gyda hwy er mwyn sicrhau bod cyfeiriad y prosiectau a rennir hyn wedi'u gwreiddio yn y lleoliad, cymuned, creadigrwydd ac uchelgais.

Mae ein rhaglenni datblygu talent yn cefnogi'r rhai sy'n dyheu am yrfa mewn dawns, ar y llwyfan ac oddi arno.
Drwy alluogi arloesedd artistig ar bob cam o ddatblygiad gyrfa, rydym yn ceisio gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ecoleg dawns amrywiol yng Nghymru.

Rydym yn rhoi llawer o leisiau a dulliau o gyflwyno dawns wrth wraidd ein gwaith, sy'n datblygu ein celfyddyd, ac yn edrych ar sut y gall dawns gyrraedd cynulleidfaoedd a chysylltu â nhw. Nod y cydweithrediadau unigryw hyn yw gwefreiddio, ysbrydoli, synnu a difyrru, gan gyflwyno cyfleoedd i gynulleidfaoedd na fyddent yn eu cael yn unman arall.

Darllenwch ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yma

## Ein Blaenoriaethau Yw:

Ehangu ymgysylltiad ledled ein gwaith drwy sicrhau bod cyfiawnder wrth wraidd popeth a wnawn

Hyrwyddo arloesedd a rhagoriaeth o fewn dawns, gan feithrin talent a galluogi newid

Eirioli dros ddawns fel llwyfan hanfodol ar gyfer llesiant a mynegiant dynol

Gwella ein hyblygrwydd, cynaliadwyedd a gwytnwch ariannol

## Ein gwerthoedd yw:

**CHWILFRYDIG**
i ddarganfod syniadau newydd, i ddysgu ac i arloesi

**CYDWEITHREDOL**
yn y ffordd rydym yn cysylltu â’n gilydd, yn ogystal ag artistiaid, cymunedau, cynulleidfaoedd a phartneriaid o fewn y sector diwylliannol a thu hwnt

**DEWR**
yn ein huchelgais ar gyfer dawns yng Nghymru a'r byd, gan hyrwyddo newid

**HAEL**
drwy rannu ein brwdfrydedd, gwybodaeth ac adnoddau

## Ein gobeithion wrth greu effaith

Pobl yn croesawu dawns fel rhan o’u hunaniaeth unigol a chyd-hunaniaeth
Newid cymdeithasol blaengar drwy well tegwch a chyfleoedd i bawb

# Y Cyd-destun Cymreig

Mae CDCCymru yn un o gwmnïau celfyddydol cenedlaethol Cymru ac mae wedi ei leoli yn y Tŷ Dawns yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd.

Rydym yn falch o iaith a thraddodiadau Cymru, yn ogystal â'r ieithoedd niferus eraill a glywir yma heddiw. Yr amrywiaeth hon yw un o ysgogwyr pennaf ein hegni creadigol.

Mewn poblogaeth o dair miliwn, mae 20-25% yn siarad Cymraeg neu yn ei deall, gyda llawer o'r rhain yng nghadarnleoedd gwledig y Gogledd a'r Gorllewin, a gwelir ffyniant ymhlith poblogaeth ieuengach, yn Ne Cymru. Mae trefi megis Wrecsam a Llandudno yn ganolfannau diwylliannol yn eu rhinwedd eu hunain gyda chysylltiadau cyfathrebu cryf â Lloegr.

Mae prifddinas Caerdydd yn datblygu enw da, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn y celfyddydau, y cyfryngau a'r byd digidol, gyda llu o ffilmiau, dramâu teledu a chynnwys digidol yn cael eu cynhyrchu yma. Mae rhwydwaith o artistiaid, lleoliadau, cynhyrchwyr a gwyliau ledled y wlad yn allweddol i'r adferiad diwylliannol hwn yng Nghymru. Mae CDCCymru wedi chwarae rhan sylweddol yn y twf hwn, gan greu gwaith unigryw, wedi'i wneud yng Nghymru ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru yn bennaf, ac sy'n dathlu a hyrwyddo gwaith artistiaid o Gymru. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i broffil ac ymwybyddiaeth o ddiwylliant cyfoes o Gymru ledled y DU ac yn rhyngwladol.





# Y Cwmni

Mae'r cwmni'n cynnwys dawnswyr rhagorol sydd â dealltwriaeth gorfforol drylwyr ac ymdeimlad o gelfyddyd unigol, ochr yn ochr â thîm busnes a chreadigol hynod o dalentog.

Mae'r cwmni'n perfformio yn ein cartref ym Mae Caerdydd ac mewn lleoliadau eraill yng Nghymru, y DU ehangach ac yn rhyngwladol. Sefydlwyd CDCCymru fel 'Diversions' yn 1983 a thyfodd mewn maint a statws.

Yn 2004, symudodd y Cwmni i gartref pwrpasol newydd, y Tŷ Dawns, sy'n rhan o Ganolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd.

Yn 2009, daeth yn Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, gan adlewyrchu ei statws a'i rôl o ran arwain a hyrwyddo dawns yng Nghymru. Gyda'n gilydd, rydym yn croesawu syniadau newydd eofn ac uchelgeisiol sy'n corfforoli ein gwerthoedd ac yn ysbrydoli cynulleidfaoedd.

Mae'r gwaith a wnawn i ymgysylltu pobl ar hyd a lled Cymru mewn dawns yr un mor bwysig, er mwyn manteisio ar fuddion llesiant symudiad. Ymhlith y coreograffwyr diweddar mae

Melanie Lane, Marcos Morau, Lea Anderson, Sarah Golding & Yukiko Masui (SAY), Andrea Constanzo Martini, Boram Kim, Anthony Matsena, Matthew William Robinson, Daisy Howell, June Campbell-Davies ac Osian Meilir.

**Cliciwch isod i ddysgu mwy am:**
**Dawns ar gyfer Parkinson's**
**Aelodau Cyswllt Ifanc**
**Tu Hwnt i'r Gofyn ym Mhenrhys**

Mae ein gwaith Dawns ar gyfer Parkinson's mewn tri lleoliad ar draws Cymru, ein gwaith o feithrin talent ifanc drwy ein rhaglen Aelodau Cyswllt Ifanc, a'n rhaglen hirdymor, wreiddiol ym mhentref Penrhys yn Rhondda Cynon Taf yn enghreifftiau o le rydym yn defnyddio ein gwybodaeth am ddawns, ochr yn ochr ag arfer celfyddydol arall, i gyfoethogi bywydau pobl. Mae ffocws ein rhaglen ymgysylltiad yng Nghymru yn bennaf ar gyfer bob oed, ar gyfer y rhai nad ydynt erioed wedi rhoi cynnig ar ddawns o'r blaen, yn ogystal â'r rhai sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau. Rydym hefyd yn gweithio â phobl y mae dawns yn weithgaredd therapiwtig iddynt yn ogystal â bod yn weithgaredd artistig.



Er bod dawnswyr y cwmni yn ymwneud â rhai o'r prosiectau amrywiol hyn, caiff y mwyafrif eu cyflwyno gan rwydwaith o artistiaid dawns llawrydd sydd wedi'u trwytho yn ein repertoire ac sy'n gweithio yn eu cymunedau lleol gyda'u gwybodaeth arbenigol.



Mae gennym ein stiwdio ymarfer ein hunain, ystafell berfformio gyda 104 sedd, swyddfeydd a chyfleusterau cynhyrchu yn y Tŷ Dawns. Yn ogystal â chael ei defnyddio gan CDCCymru, rydym yn llogi'r ystafell berfformio i gwmnïau dawns a theatrau lleol a'r DU, artistiaid dawns annibynnol o Gymru, ac artistiaid sy'n gweithio mewn disgyblaethau eraill.

Mae amrywio'r bobl rydym yn gweithio â nhw, yn artistiaid, staff, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr, wedi'i ymgorffori yn ein cynlluniau. Mae gennym dargedau uchelgeisiol i adeiladu ar y gwaith sydd wedi arwain at fwrdd, gweithlu a dawnswyr mwy amrywiol.

Mae un mewn 7 o'n bwrdd a'n gweithlu yn dod o'r Mwyafrif Byd-eang, mae 17% yn f/Fyddar neu'n anabl, ac mae 30% yn uniaethu fel LHDTC+.

Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud er mwyn sicrhau cydraddoldeb ac mae hwn yn nod allweddol i'r Bwrdd a'r tîm arwain.



# Llwyddiannau Diweddar

Mae CDCCymru yn creu perfformiadau ar gyfer theatrau bach a mawr yng Nghymru, llwyfannau Ewropeaidd a rhyngwladol. Rydym wedi cyflwyno prosiectau sgrin ac ar-lein ac wedi gweithio dan do, yn yr awyr agored, mewn lleoliadau o bob maint ac yn ein cartref yn y Tŷ Dawns.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae CDCCymru wedi creu gwaith mwy amrywiol nag erioed o'r blaen, ac wedi cynyddu niferoedd y cyfranogwyr a'r gynulleidfa a lefelau gweithgarwch yng Nghymru a thu hwnt.

Mae niferoedd y gynulleidfa mewn llawer o theatrau y gwnaethom ymweld â hwy bellach wedi cyrraedd y lefelau cyn Covid ac mae ein rhaglenni ymgysylltiad yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd o bob cwr o Gymru.

Rydym hefyd yn creu gwaith gyda'n Haelodau Cyswllt Ifanc, ein cwmni ieuenctid rhwng 13-21 oed sy'n mynychu hyfforddiant cyfoes ar lefel broffesiynol yn wythnosol, a chyda'n dawnswyr Dawns ar gyfer Parkinson's.

Ochr yn ochr â'r gwaith rydym yn ei greu a'i deithio, a'r gweithgarwch ymgysylltu sydd mor hanfodol i'n dylanwad, mae gennym hefyd ran i'w chwarae yn y sector dawns ehangach yng Nghymru drwy ein rhaglen datblygu artistiaid, sy'n dwyn coreograffwyr annibynnol a choreograffwyr gweithredol ynghyd o fewn y cwmni gyda dawnswyr CDCCymru.

Mae gwaith rhyngwladol CDCCymru yn cyfrannu at enw da Cymru yn rhyngwladol. Dros y blynyddoedd diwethaf, perfformiodd y cwmni yn Ffrainc, yr Eidal, De Corea a'r Almaen.
Mae'r teithiau rhyngwladol yn y gorffennol wedi cynnwys Japan, Hong Kong, Sbaen, Awstria a'r Swistir.



# Llywodraethu a Chyllid

Mae CDCCymru yn elusen gofrestredig sydd ag ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gweithredu fel cyfarwyddwyr y cwmni: Mae'r bwrdd yn cael ei arwain gan y Cadeirydd Alison Thorne, sydd â chefndir cryf mewn manwerthu a datblygu pobl. Caiff ymddiriedolwyr eu recriwtio drwy hysbysebion a chyfweliadau. Mae'r cwmni'n cyflogi 17 o aelodau staff ac yn 2024/25 roedd ganddo drosiant o £1.5 miliwn.

Ein nod yw creu rhaglen sy'n artistig feiddgar ac uchelgeisiol wrth gynnal sefyllfa ariannol gadarn. Ariennir ein gwaith drwy incwm grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru (prif gyllidwr y cwmni - £855,581 ar gyfer 25/26), incwm y swyddfa docynnau, llogi lle ac arian a godwyd gan ymddiriedolaethau elusennol, busnesau a rhoddwyr unigol. Rydym yn falch o fod wedi sicrhau ymrwymiad cyllid tair blynedd yn ddiweddar gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2024-2027. Mae yna ddau is-bwyllgor sefydledig; y Pwyllgor Pobl a Chyllid, sy'n cynghori'r Bwrdd ar faterion ariannol, gweithredol, AD a materion perthnasol eraill a'r Grŵp Cynghori Artistig, sy'n cynnwys ymddiriedolwyr, staff a chynrychiolwyr allanol i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Artistig gyda'r rhaglenni. Mae yna hefyd grwpiau Gorchwyl a Gorffen pan fo angen er mwyn cefnogi'r arweinyddiaeth weithredol mewn meysydd datblygu penodol.

[Dyma ddolen i'r bwrdd ymddiriedolwyr presennol.]

# Cynyrchiadau

Y dolenni isod i fynd i ragluniau ar gyfer ein repertoire.
Cliciwch yma ar gyfer rhagluniau disgrifiad clywedol



Skinners: Melanie Lane



AUGUST: Matthew William Robinson



Zoetrope: Lea Anderson



Waltz: Marcos Morau



Say Something: SAY



SEPTEMBER: Matthew Robinson



Wild Thoughts: Andrea Costanzo Martini

"UN O'R PETHAU MWYAF CYFFROUS AM GWMNI DAWNS CENEDLAETHOL CYMRU YW NAD OES GENNYCH CHI WIR UNRHYW SYNIAD BETH I'W DDISGWYL PAN WELWCH CHI UN O'U SIOEAU. MAE EU HYSTOD ARDDULL MOR ENFAWR, A'R DALENT MAEN NHW'N EI DENU MOR AMRYWIOL, EI BOD HI'N AMHOSIBL RHAGWELD BETH Y BYDDAN NHW'N EI GYFLWYNO NESAF.

NID YW HYNNY'N GOLYGU NAD OES GANDDYN NHW DEIMLAD AC ARDDULL UNIGRYW I'W GWAITH, SERCH HYNNY, AC MAE HYNNY'N GYFUNIAD RHYFEDDOL: BRAND CLIR AC YMDEIMLAD DIDDIWEDD O BOSIBILIADAU."

Buzz Magazine

national **dance** company **wales**
cwmni **dawns** cenedlaethol **cymru**

# 2024/25

Cynulleidfa o 6271 cynnydd o 4.5% ar gynulleidfaoedd y DU ar 23/24

Ymgysylltwyd â 9,001 o gyfranogwyr ar draws gweithdai, dosbarthiadau, sgyrsiau a mwy.

Gweithiwyd gyda 27 o artistiaid newydd

Ymgysylltwyd â 95 o gydweithwyr llawrydd

Crëwyd 7 gwaith dawns newydd

Cynydd o 19% yn nifer y dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol (er nad ydym yn defnyddio X mwyach)

Llogwyd y tŷ dawns i 62 o sefydliadau ar draws 327 o sesiynau

Gwnaed sain ddisgrifiad ar gael ar gyfer pob sioe deithiol ym mhob lleoliad

Perfformiwyd 53 o weithiau yng Nghymru


# CYFLAWNIADAU:




Cynhyrchwyd ffilmiau i ddysgu athrawon ledled Cymru sut i ddysgu dawns os nad oes ganddyn nhw brofiad.



Cynhyrchwyd a pherfformiwyd ein gwaith llawn cyntaf ar gyfer ysgolion a theuluoedd



Perfformiwyd ein sioe dymhorol gyntaf a'n sioe iaith Gymraeg gyntaf mewn cydweithrediad â Theatr Cymru



Cyflogwyd artist sy'n dod i'r amlwg ym Mhenrhys i ddysgu gwneud gwisgoedd, gwnïo ac atgyweirio i bob oed - a sicrhau cyllid ar gyfer offer



Addysgwyd gweithdai ledled Cymru gan gynnwys nifer o ddigwyddiadau am ddim gyda'r nod o ehangu cyrhaeddiad Cymdeithion Ifanc



Crëwyd sioe unigryw ar gyfer partneriaid busnes Goodson Thomas



Academi Amped up (Penrhys) yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru

# Cyfarwyddwr Gweithredol
## (a Chyd Brif Weithredwr)

**Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn darparu eiriolaeth busnes, ac arweinyddiaeth a chynllunio strategol i'r cwmni, gan oruchwylio'r cyfrifoldebau cynllunio busnes ac ariannol, AD, a llywodraethu. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyfarwyddwr Artistig, gan ffurfio arweinyddiaeth Prif Weithredwr ar y Cyd (Cyd Brif Weithredwr) i ddatblygu a gweithredu gweledigaeth hirdymor y Cwmni. Mae'r Prif Weithredwyr ar y Cyd yn arwain proses cynllunio busnes y cwmni ac mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol dros reoli staff a llesiant staff.**

**Yn atebol i:** Cadeirydd, Bwrdd Ymddiriedolwyr
**Rhai sy'n Adrodd yn Uniongyrchol Iddynt:** 5+
**Cytundeb:** Parhaol, Llawn Amser
**Cyflog:** £50,000 y flwyddyn
**Gwyliau Blynyddol:** 28 diwrnod
[ynghyd ag 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus]
**Pensiwn:** Cyfraniad Cyflogwr o 5% gyda 4% o Gyfraniad Gweithiwr
**Cyfnod Prawf:** 6 mis
**Cyfnod Rhybudd:** 3 mis
**Lleoliad:** Tŷ Dawns, Bae Caerdydd

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

**Diben y swydd yw darparu arweinyddiaeth strategol a chreadigol i CDCCymru, gan gynnwys:**

- Arweinyddiaeth Strategol
- Busnes a Chyllid
- Arweinyddiaeth Tîm
- Llywodraethu
- Rhaglennu, Cynhyrchu a Mynd ar Daith
- Rolau a Chyfrifoldebau y Prif Weithredwr



# Arweinyddiaeth Strategol



- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Artistig i sefydlu cyfeiriad creadigol y cwmni drwy gyfrwng polisi a rhaglen artistig ddeinamig
- Ymgysylltu a gweithio'n effeithiol gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a'r uwch dîm arwain i sicrhau bod y cwmni'n cyflawni yn erbyn y cynllun busnes
- Arwain, monitro a gweithredu cynllun busnes a chyfeiriad y cwmni, gan sicrhau bod y rhaglen artistig yn adlewyrchu gweledigaeth ac adnoddau'r cwmni'n llawn
- Ysbrydoli a chymell pawb yn y cwmni, gan arwain esblygiad y gweithgareddau artistig a chreu diwylliant o arloesedd, dysgu a datblygu
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r brand, gan greu a chyflwyno brand newydd yn effeithiol i gynyddu presenoldeb a chyrhaeddiad
- Cefnogi datblygiad a gweithrediad strategaeth marchnata a chyfathrebu'r sefydliad, gan lunio a datblygu brand y cwmni, cyflwyno ymgyrchoedd dylanwadol, a chynyddu amlygrwydd ac ymgysylltiad gyda chynulleidfaoedd yng Nghymru a thu hwnt
- Hyrwyddo trawsnewid digidol ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod arfer greadigol, gweithrediadau, cyfathrebu a systemau yn arloesol, yn effeithlon ac yn barod ar gyfer y dyfodol
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Rheolwr Marchnata i ddatblygu'r strategaethau Datblygu Cynulleidfaoedd a Mynd ar Daith (yn genedlaethol ac yn rhyngwladol) a'u rhoi ar waith
- Hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth er mwyn sicrhau bod y cwmni'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes
- Ymgysylltu a chymryd rhan gyda'r sector dawns a chelfyddydau ehangach ar draws Cymru i greu datrysiadau i heriau, gan feithrin partneriaethau a syniadau creadigol drwy hynny

# Busnes a Chyllid

- Monitro’r prosesau rheoli ariannol a chyllidebu, gan gymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros sefydlogrwydd ariannol a dyfodol y cwmni yn y tymor hir
- Goruchwylio swyddogaeth gyllid y sefydliad, gan gynnwys archwiliad blynyddol, bancio a llif arian, cynllunio ac adroddiadau ariannol, cyllidebu ac ail-ragweld, a hawlio Rhyddhad Treth i Theatrau
- Sicrhau cydymffurfiaeth ariannol, gan gynnwys monitro gweithdrefnau ariannol a gwella prosesau lle bo angen
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Artistig, a staff codi arian, i gynllunio a chefnogi gweithgarwch codi arian o wahanol ffynonellau, gan gynnwys ymddiriedolaethau, busnesau, ffynonellau statudol ac unigolion
- Gweithio gydag arbenigedd allanol i gynllunio a gwireddu ffrydiau incwm newydd, gan wneud argymhellion i’r bwrdd a rhoi’r cynlluniau hynny ar waith
- Goruchwylio’r gwaith o negodi hawliau a chytundebau ar draws yr holl waith creu a phrosiectau, gan gynnwys trwyddedu cerddoriaeth
- Adnabod, profi a thyfu ffynonellau incwm newydd, gan gynnwys partneriaethau masnachol a dyngarol, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor
- Ochr yn ochr â’r Rheolwr Cyffredinol, rheoli cysylltiadau gyda Chanolfan Mileniwm Cymru, perchennog y safle
- Rheoli’r berthynas lefel uwch gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, prif ariannwr y cwmni, gan sicrhau bod adroddiadau’n cael eu cyflwyno’n amserol a chydymffurfiaeth barhaus â gofynion ariannu



# Arweinyddiaeth Tîm

- Mewn cydweithrediad agos â’r Cyfarwyddwr Artistig, darparu eglurder o ran cyfrifoldebau’r staff a gweithdrefnau’r cwmni, a hwyluso gweithio mewn tîm/yn drawsadrannol

- Gan weithio gyda'r Uwch Dîm Arwain, sicrhau prosesau cynllunio a gwerthuso cadarn ar gyfer holl weithgarwch y cwmni

- Ysbrydoli a chyfoethogi diwylliant a naws y gwaith, gan annog arloesi a sicrhau cwmni hyblyg a deinamig ochr yn ochr â’r Cyfarwyddwr Artistig

- Annog a datblygu'r Uwch Dîm Arwain i gyflwyno rhaglenni ymgysylltu ac adolygu sy'n cefnogi’r gwaith o gyflawni’r cynllun busnes a newid diwylliannol

- Goruchwylio gwaith aelodau staff sydd dan reolaeth linell uniongyrchol y Cyfarwyddwr Gweithredol, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd un i un rheolaidd ac arfarniadau blynyddol

- Ynghyd â’r Cyfarwyddwr Artistig, goruchwylio ac ymgymryd â phrosesau recriwtio, rheoli perfformiad, disgyblu, a chwynion, yn unol â'r polisïau

- Sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith cyflogaeth a chyfraith iechyd a diogelwch, a sicrhau llesiant corfforol a meddyliol



# Llywodraethu

- Gweithio'n agos â Chadeirydd y bwrdd ac ymddiriedolwyr eraill, a bod yn atebol iddynt, er mwyn sicrhau bod gan y cwmni systemau a phrosesau llywodraethu effeithiol ar waith sy'n bodloni'r amcanion, atebolrwydd a chyfrifoldebau sefydliadol a busnes
- Gweithio ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Rheolwr Cyffredinol, sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybodaeth amserol, reolaidd a chywir er mwyn gallu gwneud y penderfyniadau gorau posib
- Cefnogi Cadeirydd y Bwrdd i greu cynlluniau gwaith a phwyntiau ymgysylltu perthnasol ar gyfer y Bwrdd, y pwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen
- Sicrhau bod y cwmni'n gweithredu'n unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a chynghori'r bwrdd ar faterion llywodraethu



# Rhaglennu, Cynhyrchu a Mynd ar Daith

- Gyda chefnogaeth gan Reolwr y Cwmni, adnabod a rheoli cyd-gynyrchiadau a phrosiectau cydweithredol, gan weithio ar gontractau gyda chyd gynhyrchwyr a chontractau gyda lleoliadau teithiau
- Adnabod, datblygu a rheoli cyfleoedd entrepreneuraidd, megis mynd ar daith neu ddarlledu gwaith y Cwmni
- Arwain y gwaith o greu partneriaethau rhyngwladol gyda theatrau, gwyliau a chyrff strategol
- Datblygu a rheoli perthnasau gydag asiantau
- Gyda chefnogaeth gan Reolwr y Cwmni, arwain y gwaith o sicrhau teithiau yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol, gan ymateb i ymholiadau, trafod telerau â lleoliadau a hyrwyddwyr er mwyn cynhyrchu'r incwm uchaf posib o fynd ar daith
- Mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Pennaeth Cynhyrchu, darparu arweinyddiaeth ar draws y gwaith cynhyrchu technegol a chreadigol, gan sicrhau bod perfformiadau o safon uchel yn cael eu cyflwyno ar draws llwyfannau byw, digidol a hybrid

# Rolau a Chyfrifoldebau y Prif Weithredwr



- Arweinyddiaeth strategol o ran datblygu a gweithredu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y cwmni, gan weithio ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Artistig
- Arwain proses cynllunio busnes y cwmni
- Cyfrifoldeb cyffredinol am reoli staff a llesiant staff
- Creu cynnig arweinyddiaeth cynaliadwy fel sefydliad angori i gefnogi datblygiad yr ecoleg ddawns ehangach yng Nghymru
- Cyfrifoldeb llawn am adolygu a chynnal yr holl weithdrefnau a pholisïau, gan gynnwys contractau cyflogaeth, polisïau iechyd a diogelwch, asesiadau risg a llawlyfr staff y cwmni, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith
- Gweithio'n agos â'r ymddiriedolwyr, a bod yn atebol iddynt, er mwyn sicrhau bod y cwmni'n bodloni ei amcanion sefydliadol a busnes
- Ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Artistig, gweithredu fel arweinydd y cwmni a bod yn llysgennad ac eiriolwr i'r cwmni a dawns yng Nghymru
- Meithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid allweddol a chydweithredwyr strategol

# Dyletswyddau Cyffredinol

- Cefnogi gweithrediadau dydd i ddydd y Tŷ Dawns
- Gweithredu fel esiampl dda i'r holl weithwyr o ran ymddygiad proffesiynol, safonau a pholisïau
- Chwarae rôl weithredol yn y gwaith o ddatblygu, hyrwyddo a gweithredu holl bolisïau CDCCymru, gan gynnwys dwyieithrwydd, gwrth-hiliaeth, gwrth-orthrymder, cynrychiolaeth, hygyrchedd, cynaliadwyedd amgylcheddol, ac iechyd a diogelwch
- Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i gefnogi amcanion elusennol y cwmni a chefnogi gweithgareddau codi arian, gan gynnwys casglu ac adrodd am ystadegau
- Mae'n rhaid i bob aelod o staff gydymffurfio â rheoliadau GDPR ynghylch rheoli cofnodion data personol
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n rhesymol ddisgwyliedig gan y bwrdd er mwyn cyflawni'r rôl



# Eich Profiad a'ch Gwybodaeth

# Manyleb Person

- Profiad uwch arweinyddiaeth sylweddol o fewn sefydliad perthnasol, yn ddelfrydol o fewn sector y celfyddydau a diwylliant, dawns neu'r trydydd sector yn ehangach
- Profiad o weithio ar y cyd â Chyfarwyddwr Artistig / Creadigol
- Profiad o arwain, rheoli a chymell timau ar bob lefel
- Hyfedredd ariannol cryf, gyda phrofiad o oruchwyliaeth ariannol strategol, cynllunio busnes a rheoli cyllideb
- Profiad o reoli a chydbwyso risgiau artistig ac ariannol
- Profiad o arwain timau drwy ddatblygiad strategaeth a chreu cynlluniau busnes sy'n cael eu harwain gan genhadaeth ac y mae modd eu cyflawni
- Profiad o gynhyrchu a theithio o fewn y DU ac yn rhyngwladol
- Profiad o gomisiynu gwaith artistig newydd a rheoli prosesau creadigol
- Profiad llwyddiannus o arwain strategaeth a thimau codi arian, gyda gwybodaeth gref o'r tirlun codi arian dyngarol, cyhoeddus a phreifat cyfredol
- Profiad o weithio gyda neu adrodd i Fwrdd Ymddiriedolwyr, gyda gwybodaeth am lywodraethu da a chydymffurfiaeth reoliadol yn y sector elusennol
- Gwybodaeth helaeth am ddawns yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys tueddiadau ac arferion presennol a deinameg o fewn y sector
- Dealltwriaeth o'r sefyllfa wleidyddol, ddiwylliannol ac ariannu yng Nghymru a'i chroestoriad â pholisi celfyddydol yn y DU ac yn rhyngwladol



# Eich Profiad a'ch Gwybodaeth

- Y gallu i arwain gyda deallusrwydd emosiynol, empathi ac eglurder, ac i feithrin diwylliant gweithio cydweithredol, diogel a chynhwysol
- Ymrwymiad wedi'i arddangos i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar arweinyddiaeth, rhaglennu a gweithrediadau
- Profiad o ddatblygu a chynnal ystod eang o gysylltiadau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys gydag arianwyr, partneriaid, cydweithredwyr a chymunedau
- Profiad o gynrychioli sefydliad yn gyhoeddus ac eiriol dros ei genhadaeth mewn fforymau strategol, diwylliannol a pholisi
- Profiad o adnabod a datblygu modelau busnes newydd, cyfleoedd masnachol, neu bartneriaethau sy'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor
- Ymwybyddiaeth o sut y gall elfennau digidol, data ac arloesi gefnogi ymgysylltu, cyfranogi a thwf sefydliadol
- Profiad o arwain sefydliadau drwy newid, twf neu drawsnewid, gan gynnal cydnerthedd a chadw at werthoedd ar yr un pryd



# Priodoleddau

- Ymrwymiad personol cryf i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gyda'r dewrder a'r agwedd benderfynol i droi gwerthoedd yn weithredoedd
- Parch tuag at y Gymraeg a dealltwriaeth ddiwylliannol ohoni, gydag ymrwymiad cadarn i'w dysgu os nad ydych eisoes yn gallu siarad yr iaith
- Arweinydd sy'n ddeallus yn emosiynol ac yn arweinydd cydweithredol sy'n gallu ysbrydoli ymddiriedaeth, meithrin timau iach a datblygu partneriaethau deinamig
- Eiriolwr hyderus sy'n gallu darbwyllo ynghylch dawns, y cwmni a bywyd diwylliannol Cymru
- Sgiliau rhyngbersonol a dylanwadu cryf, gyda'r gallu i adeiladu a chynnal cysylltiadau ystyrlon ar draws sectorau a chymunedau
- Meddwl agored a phragmatig, gyda lefel uchel o drefnusrwydd personol a'r gallu i flaenoriaethu o dan bwysau
- Yn cael eich arwain gan weledigaeth, a'ch ysgogi gan werthoedd, byddwch hefyd yn gadarn yn wyneb cymhlethdod neu newid
- Meithrinwr naturiol potensial, yn ymrwymedig i fentora a datblygu talent ar bob lefel
- Yn ymwybodol o risg, ond heb fod yn cilio oddi wrtho, gyda'r crebwyll i gydbwyso uchelgais gyda chynaliadwyedd
- Cred mewn ymgysylltiad cyhoeddus ac ehangu mynediad at ddiwylliant a chreadigrwydd.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda'r hyder i gynrychioli'r sefydliad mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd
- Cytgord gwirioneddol gyda gwerthoedd a phwrpas Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru



# Trefniadau Gweithio

Mae'r rôl wedi'i lleoli yng Nghymru, gyda'r disgwyliad y bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol (a Chyd Brif Weithredwr) yn treulio eu hamser yn gweithio wyneb yn wyneb gyda'r tîm, partneriaid a chymunedau, er y bydd gweithio hyblyg yn cael ei gefnogi o bryd i'w gilydd lle bo'n briodol. Bydd y rôl yn cynnwys peth teithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol yn ôl y gofyn. Anogir ymrwymiad i ddysgu Cymraeg gan rai nad ydynt yn siarad Cymraeg, a bydd cefnogaeth yn cael ei darparu.

# Beth am Gael Sgwrs

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y swydd a hoffech gael sgwrs gyfrinachol am y cyfle, yna cysylltwch, ac fe awn ati i drafod.


Alison Throne, Cadeirydd (e-bost)
alison@atconnect.org.uk

David Watson, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro (a Phrif Weithredwr ar y Cyd)
david@ndcwales.co.uk




# Sut i wneud cais

**Os hoffech wneud cais am y swydd hon, cyflwynwch CV a llythyr eglurhaol (dim mwy na 3 tudalen), ynghyd â Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal wedi'i chwblhau, i recruitment@ndcwales.co.uk.**

Yn eich llythyr eglurhaol, amlinellwch:

- Eich profiad a'ch sgiliau perthnasol sy'n gysylltiedig â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd.
- Sut yr ydych yn bodloni'r fanyleb person a'r cymwysterau a amlinellir.
- Pam fod gennych ddiddordeb yn y swydd a beth sy'n eich cymell i wneud cais?
- Datganiad yn cadarnhau bod gennych yr hawl i weithio yn y DU, neu a fyddai angen trwydded waith arnoch i wneud hynny.

Rhowch enwau a manylion cyswllt dau ganolwr cyflogaeth neu broffesiynol. Ni fyddwn yn cysylltu â hwy ymlaen llaw na heb i chi wybod.

Os hoffech wneud cais gyda sain, fideo neu fformat arall sy'n hygyrch i chi, mae croeso i chi wneud hynny. Parhewch i gyfeirio at yr un pwyntiau a amlinellwyd uchod.

Y dyddiad olaf i gyflwyno cais yw Dydd Mercher 14 Awst 2025 erbyn hanner dydd. Ni ystyrir ceisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn.

## Proses Recriwtio

- Cyfweliadau Rhestr Hir Ar-lein:
  Dydd Mercher 20 Awst 2025

- Cyfweliadau Rhestr Fer Wyneb yn Wyneb:
  Dydd Iau 28 Awst 2025



Gofynnwch gwestiynau dros e-bost i Alison yma

Gofynnwch gwestiynau dros e-bost i David yma

Cyflwynwch eich cais dros e-bost yma

Cliciwch yma i gael mynediad at y ffurflen Cyfleoedd Cyfartal

# Addewid Recriwtio

Byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd, p'un a ydynt yn cael eu cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad ai peidio. Gwahoddir ymgeiswyr anabl sy'n dangos eu bod yn cwrdd â manyleb y person am gyfweliad, ac rydym wedi ymrwymo i fodloni gofynion mynediad; dim ond i chi roi gwybod i ni beth sydd ei angen arnoch chi.

# Cydraddoldeb

Nod CDCCymru yw i ddawns fod yn rhan o fywyd pawb, ac mae'n cyflwyno ei waith mewn gwahanol fformatau a chyd-destunau ledled Cymru a ledled y byd.

Credwn y dylai amrywiaeth gael ei hymgorffori'n llawn yn ein diwylliant a'n gwerthoedd cyfundrefnol, ac rydym yn parhau i ehangu amrywiaeth y Cwmni a'i waith.

I'r perwyl hwnnw rydym yn siarad â phobl o ystod o gymunedau ac yn gwrando arnynt, i gyflwyno dealltwriaeth a mewnwelediad, ac i adnabod newidiadau y gallwn eu gwneud. Mae manylion ynghylch y camau yr ydym yn eu cymryd i'w gweld yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

# Cyfiawnder Cymdeithasol

Mae cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a thegwch wrth wraidd holl weithgareddau CDCCymru. Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gael mynediad i ddawns. Bydd CDCCymru yn ceisio sicrhau nad oes neb yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd bod ganddo nodwedd warchodedig. Rydym yn annog ceisiadau yn arbennig gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector celfyddydau, a chan y rhai sy'n profi gwahaniaethu oherwydd hil, hunaniaeth rywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, hil, crefydd, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, anabledd neu oedran. Gellir talu costau teithio a threuliau ac arian gofal plant.




Darllenwch ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Diogelu Data

Defnyddir yr wybodaeth a roddwch i greu rhestr fer ar gyfer cyfweliadau ac i lywio ein penderfyniad ynghylch pwy i'w benodi. Bydd eich holl fanylion yn cael eu cadw'n ddiogel gyda mynediad yn gyfyngedig i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses recriwtio yn unig. Bydd eich cais yn cael ei gadw ar ffeil am o leiaf dri mis ar ôl y dyddiad cau a'i ddinistrio ddim hwyrach na deuddeg mis ar ôl hynny. Mae data recriwtio cyfle cyfartal hefyd yn ddienw ac yn cael ei ddefnyddio'n fewnol i nodi ffyrdd i wella ein prosesau a chyrraedd y gronfa ehangaf bosibl o ymgeiswyr. Mae cyflwyno'ch cais i ni yn dangos eich caniatâd i'ch data gael ei ddefnyddio yn y modd hwn.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Llun: Kirsten McTernan, Chris Nash, Rhys Cozens, Elywell Photography, Jorge Lizalde**
**Fideos: Jonathan Dunn**